Eitem 4 ar yr Agenda **24 Medi 2010** **PCC 27.10**

ADRODDIAD ARIANNOL HYD AT 31 AWST 2010

Pwrpas

1. Hysbysu'r Pwyllgor Cenedlaethol am faterion ariannol sy'n wynebu Comisiwn Coedwigaeth Cymru [CCC] ar hyn o bryd.

BA09/10

2. Llofnodwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon BA09/10 gan Gyfarwyddwr Cymru yn y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 30 Gorffennaf a chan Gillian Body, Archwilyd Cyffredinol Cymru, ar 3 Awst. Cânt eu cyhoeddi'n fuan ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

3. Mae Llythyr Rheoli drafft gan Swyddfa Archwilio Cymru bellach wedi'i dderbyn, ac mae ei gynnwys yn cael ei drafod ar hyn o bryd â Swyddfa Archwilio Cymru. Cyflwynir ymateb CCC yng nghyfarfod Tachwedd o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

BA10/11

4. **Gwariant y Rhaglen Gorfforaethol** - er ei fod tua 8% y tu ôl i'r proffil cyllidol, eir i'r afael â hyn yng nghyfarfodydd hanner blwyddyn Cynllunio a Monitro Busnes a gynhelir yn ystod mis Hydref. Y ddau brif achos o'r gwahaniaeth mewn gwariant ar hyn o bryd yw:-

    - rhagwelir gorwariant oddeutu £0.8 miliwn wrth ymateb i achosion *Phytopthera ramorum*. Fodd bynnag, oherwydd ansicrwydd ynghylch y mesurau lliniaru fel amseru a thorri coed eraill i lawr, nid yw'r amrywiant hwn wedi'i gynnwys yn y datganiadau ariannol ar hyn o bryd.

    - rhagwelir gorwariant oddeutu £0.6 miliwn o ran Grantiau a Rheoleiddiad.

5. **Incwm y Rhaglen Gorfforaethol** – Ar hyn o bryd mae'r incwm o goed yn golygu amrywiant ffafriol o rhwng £0.4 miliwn a £0.7 miliwn a defnyddiwyd y ffigur is yn y rhagolygon a atodwyd.

6. O ystyried amrywiannau llai, mae'r sefyllfa gyffredinol yn adlewyrchu newidiadau bychan i'r gyllideb o ryw £40,000 yn well na'r safon. Rydym yn parhau i fireinio'r proffilio o gymharu â rhaglenni wrth i ni weithio tuag at sicrhau ein bod yn gostwng gwariant tua'r diwedd.

Materion Ariannol a Materion Cysylltiedig Eraill

7. **Dadansoddi Rhaglenni Corfforaethol** - Gyda'r Isadran Polisi a Rhaglenni, cynhaliodd Cyllid adolygiad 10% o weithrediadau masnachol hyd Awst er mwyn canfod a oedd costau a refeniw yn cael eu halinio â'r Rhaglen Gorfforaethol briodol. Ystyriwyd bod y cod cywir wedi'i ddefnyddio ar gyfer 89% o'r gweithrediadau

masnachol enghreifftiol sy'n golygu ein bod yn hyderus o ran dyrannu costau yn erbyn y Rhaglenni Corfforaethol priodol.

8. **Cynllunio Busnes ar gyfer 2011/12 a thu hwnt** - Bydd yr ymarfer comisiynu ar gyfer y cyfnod BA11/12 - BA13/14 yn cychwyn ar ddechrau mis Hydref. Er y gall ffactorau allanol fel gwaith Dewisiadau yr Amgylchedd effeithio ar hyn, y cynllun presennol yw i'r Cynllun Busnes gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli yn Ionawr 2011 a'i gadarnhau gan y Pwyllgor Cenedlaethol yn Chwefror 2011.

9. **Cynllun Cyflawni Caffael** – O ganlyniad i newidiadau strategol a gwario (e.e. *P ramorum*) cynhaliwyd adolygiad o'r Cynllun Cyflawni Caffael a diwygiwyd llwyth gwaith caffael. Mae'r Cynllun yn yrrwr sylweddol o welliannau cydymffurfiaeth a gwelliannau effeithlonrwydd yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru. Yn ogystal, datblygwyd ymagwedd gydweithiol at gaffael gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru er mwyn datblygu contractau fframwaith y gall unrhyw un o'r sefydliadau eu defnyddio.

Dadansoddiad Risg

10. **BA10/11:** Asesir bod y risg o wario mwy na'r gyllideb neu fwy na'n cyllid hyblyg yn **Isel** [Effaith 4; Tebygolrwydd <1].

11. **BA11/12 a thu hwnt:** Mae'r risg o leihad yn yr ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer BA11/12 a thu hwnt yn **Uchel** [Effaith 5; Tebygolrwydd 4].

Goblygiadau Adnoddau

12. Fel arfer, nid oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau'n codi o'r papur fel y cyfryw. Mae'n gweithredu fel arweiniad i sut mae'r adnoddau presennol yn cael eu rheoli.

Cyfathrebu

13. Mae sefyllfa ariannol Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael ei chyflwyno trwy gyfrwng y papur hwn, sy'n cael ei olygu ar gyfer unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif, ar y Rhyngrwyd. Yn y cyfamser, fe'i trosglwyddir i Reolwyr Unedau trwy gyfrwng Cyfarfodydd Fforwm Rheolwyr, Cyfarfodydd Grŵp Rheoli'r Ystad a thrwy'r tîm o Dechnegwyr Cyfrifyddu Rheoli sy'n cyfarfod yn rheolaidd â Rheolwyr Unedau Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Hefyd, anfonir copïau o'r Adroddiadau Cyllid gan y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Cenedlaethol at Uned Fusnes, Adran Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru ac at Gyfarwyddwr Cyllid, Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr.

Argymhelliad

14. Gofynnir i'r Pwyllgor Cenedlaethol nodi'r sefyllfa bresennol.

Martin Veale
Pennaeth Cyllid

15 Medi 2010